

CYFLWYNIAD CYNLLUNIO – CYNHADLEDD RTPi PRIFYSGOL GLYNDWR, WRECSAM, 4 AWST 2011

CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG GOSOD Y CYD-DESTUN: CEFNDIR Y POLISI CYFREDOL

RHAGARWEINIAD

Diolch am estyn gwahoddiad i mi i ddod yma heddiw - i drafod y berthynas rhwng Cynllunio a'r iaith Gymraeg.

Dylwn ar y dechrau ddweud mai fy marn i sydd yn y cyflwyniad yma ac nid yw'r hyn sydd gennyf i'w ddweud yn angenrheidiol yn adlewyrchu barn yr Awdurdod.

HANES CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

Hyd y gwn i yn 1975 y cyfeiriwyd at yr iaith Gymraeg fel ystyriaeth Gynllunio am y tro cyntaf.

Mewn achos yn Llansannan yn 1975 fe wrthododd arolygydd apêl ar sail.

“fod cryfder y farn leol ynghylch gwarchod bywyd diwylliannol a chymdeithasol y gymuned draddodiadol Gymreig hon yn ffactor sy'n gorfod cario pwysau os yw cyfranogiad y cyhoedd yn mynd i fod o bwys o gwbl mewn ymchwiliadau cynllunio”

Yn anffodus bu yn rhaid aros tan 1988 cyn i'r iaith Gymraeg gael statws gynllunio am y tro cyntaf gan y Swyddfa Gymreig yng nghylchlythyr 53/88.

Beth fu hanes defnydd o'r iaith Gymraeg ers 1988 yn y maes cynllunio?

Yn 2004 bu imi olrhain hanes defnydd o'r iaith Gymraeg ym mholisiau a phenderfyniadau awdurdodau cynllunio Cymru.

O ran polisiau ar y pryd roedd bron pob cynllun unedol drafft yn cyfeirio at yr iaith fel ystyriaeth gynllunio berthnasol ond heb fynd i ormod o fanylder. Ar y cyfan arwynebol iawn oeddent. Ond yr hyn oedd yn ddiddorol oedd bod y polisiau yn seiliedig ar atal unrhyw niwed i gymeriad cymunedau yn hytrach na rhai oedd yn ceisio hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg h.y. y swyddogaeth amddiffynnol.

Yng nghynllun Unedol Sir Ddinbych - y cynllun unedol cyntaf i'w fabwysiadu yng Nghymru yn 2002 - ceir polisi - sydd yn gofyn am asesiad ieithyddol wrth ymdrin â chais cynllunio. Beth mae hyn yn ei olygu yw bod yn rhaid i'r datblygwr mewn achosion penodol gyflwyno asesiad ieithyddol sydd yn amlinellu sut bydd y datblygiad yn debygol o effeithio ar yr iaith Gymraeg a pha fesurau y bydd yn eu defnyddio i liniaru unrhyw effaith andwyol. Er bod cwmni tai preifat a'r ffederasiwn tai wedi gwrthwynebu'r polisi mae'r ffaith bod y polisi wedi cael sêl bendith arolygwr annibynnol yn arwyddocaol iawn yn fy marn i.

Ond beth am hanes penderfyniadau cynllunio sydd wedi ystyried ffactorau ieithyddol. Wel unwaith eto yn ôl yr ymchwil yn 2004 dim ond 27 o achosion apêl rhwng 1988 ac 2004 (cyfnod o 16 mlynedd) sydd wedi cyfeirio at iaith fel rheswm dros wrthod cais cynllunio - a bron iawn ymhob achos - fel un rheswm ymhlith amryw o resymau eraill.

Mae'n amlwg felly bod yr awdurdodau cynllunio yn anfodlon defnyddio rheswm ieithyddol fel yr unig reswm i wrthod cais cynllunio. Yn sicr yr oedd Cymreictod cymuned yn ystyriaeth gan yr arolygwr wrth ystyried apêl y datblygwr. Ond yr hyn oedd yn perswadio'r arolygwr i wrthod apêl oedd - gallu cymuned i ymgorffori'r twf arfaethedig a fyddai yn dod yn sgil y datblygiad - ac nid yr ystyriaeth ieithyddol yn unig. Yn y cyd-destun yma roedd tystiolaeth a thueddiadau blaenorol am batrymau datblygiad a mewnfudo yn yr ardal yn allweddol. Lle'r oedd modd dangos bod y datblygiad yn debygol o arwain at fewnlifiad sylweddol h.y. bod maint a chyfradd y datblygiad dros amser yn fwy o lawer na'r angen lleol, yna roedd gwell siawns o amddiffyn y penderfyniad gwreiddiol.

CYD-DESTUN POLISI

POLISI CYNLLUNIO CYMRU

Mae Polisi Cynllunio Cymru gyfredol - sef argraffiad rhif 4 (Chwefror 2011), dogfen 214 tudalen yn cynnwys tri pharagraff ar yr Iaith Gymraeg. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod yr iaith Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac y dylai'r gyfundrefn gynllunio ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl awdurdodau cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'r ffabrig cymdeithasol. Pan fo'r iaith yn rhan o ffabrig y gymuned dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr iaith wrth ffurfio polisiau cynllunio defnydd tir, gan gynnwys gallu'r ardaloedd a chymunedau gwahanol i ymdopi gyda datblygiad heb erydu sefyllfa'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, yn ôl Polisi Cynllunio Cymru ni ddylai'r polisiau mewn cynlluniau datblygu geisio cyflwyno unrhyw wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, ac ni ddylai geisio rheoli meddiannaeth tai ar sail ieithyddol.

CANLLAWIAU CYNLLUNIO (CYMRU)

NODYN CYNGOR TECHNEGOL (CYMRU) 20

Fe gyhoeddwyd y TAN (dogfen 4 tudalen) - "Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio" ym Mehefin 2000.

Mae'r TAN yn dweud y dylai awdurdodau cynllunio ystyried a yw'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o fywyd eu cymunedau. Mae'n dweud y dylai awdurdodau ystyried anghenion a buddiannau'r iaith wrth ffurfio polisiau yn y Cynlluniau lleol. Mae'n cydnabod y gallai polisiau priodol ar raddfa, lleoliad ac amseriad datblygiadau, helpu gwahanol gymunedau i ymdopi a datblygiad newydd. Ond mae'r TAN yn dweud na ddylid cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol ac na ddylai polisiau cynllunio fynd ati i reoli preswyliaeth tai ar sail ieithyddol.

PA MOR EFFEITHIOL YW TAN 20?

Yn 2004 pan wnaethpwyd arolwg, barn llawer o swyddogion cynllunio oedd nad yw TAN 20 (argraffiad 2000) yn rhoi digon o gyfarwyddyd i alluogi swyddogion cynllunio i asesu'n foddhaol effaith debygol polisïau neu ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant. Mae'r amharodrwydd i gymryd risgiau a goblygiadau gorfod talu costau yn dilyn apeliadau aflwyddiannus wedi arwain awdurdodau cynllunio lleol i fod yn hynod ofalus. Mae hyn yn golygu fod mater yr iaith Gymraeg wedi tueddu i gael ei gweld fel is-ffactor, ac nid fel yr un sy'n penderfynu ceisiadau.

Yn 2003 oherwydd diffygion TAN 20 bu i bartneriaeth o 16 o gyrff cyhoeddus yn ogystal â'r Cynulliad, Bwrdd yr Iaith a Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, gomisiynu gwaith ymchwil i geisio datblygu methodoleg y gellid ei ddefnyddio i helpu awdurdodau cynllunio i wneud asesiadau effaith ieithyddol. Bwriad arall yr astudiaeth oedd datblygu polisïau ieithyddol a chofrestr o ffynonellau gwybodaeth perthnasol.

Roedd y gwaith ymchwil yn heriol, yn bennaf oherwydd diffyg ffynonellau gwybodaeth ddibynadwy. Er i'r ymgynghorwyr, Ysgol Gynllunio Bartlett, Coleg prifysgol Llundain o dan arweiniad Dr Mark Tewdwr-Jones ystyried ymarferion da mewn gwledydd eraill nid oedd yna'r un fethodoleg y gellid ei fabwysiadu ar gyfer ein system gynllunio ni. Rhaid felly oedd ceisio creu un.

Cyhoeddwyd yr adroddiad 'Cynllunio a'r iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen ym mis Rhagfyr 2005.

Mae'r ddogfen yn cynnwys:

- i) Nodyn Trafod ar yr iaith Gymraeg
- ii) Datganiad Ieithyddol
- iii) Asesiad o Effaith ar Iaith
- iv) Argymhellion Penodol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ac i Lywodraeth Cymru
- v) Rhestr o Ffynonellau Gwybodaeth perthnasol

CASGLIADAU'R DDOGFEN:

1. Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi mabwysiadu ystyriaeth o'r iaith Gymraeg o fewn asesiad o effaith ar gymuned.
2. Does dim enghreifftiau ymarferol o Aseidiadau Effaith ar Iaith mewn gwledydd eraill.
3. Prin iawn yw'r defnydd o'r Nodyn Technegol 20.
4. Mae geiriad TAN 20 (argraffiad 2000) yn aneglur a diffyg tystiolaeth.
5. Mae polisi iaith yng Nghynllun Unedol mabwysiedig Sir Ddinbych yn arloesol trwy ei wneud yn orfodol i ddatblygwr baratoi asesiad ieithyddol lle bydd niwed ieithyddol yn debygol oherwydd y datblygiad bwriedir. Roedd y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai yn gwrthwynebu'r polisi arfaethedig ond cefnogodd yr arolygwr safbwynt y Cyngor yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus.

ARGYMHELLION Y DDOGFEN:

1. Dylid ystyried cyd-destun strategaethau cymunedol wrth lunio polisiâu cynllunio.
2. Dylid creu proffil ieithyddol fel cam cyntaf i ddiffinio 'ardaloedd ieithyddol sensitif' – cyfeirir at drothwy o 25%.
3. Dylai datblygwyr baratoi Datganiad o Effaith ar Iaith i gyd fynd gyda'r cais cynllunio o fewn ardaloedd ieithyddol sensitif.
4. Mewn rhai amgylchiadau arbennig dylai datblygwyr baratoi Aseiad Effaith ar Iaith gan ei fodelu ar fethodoleg yn yr adroddiad.

5. Yn benodol roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru sef:
 - i) Dylid gwerthuso'r syniadau a'r awgrymiadau yn yr adroddiad ac ystyried ei oblygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru a TAN 20.
 - ii) Dylid ystyried a oes angen ymchwil bellach i ysgogi datblygu polisiâu newydd gan gynnwys adolygu - ar y cyd gyda Bwrdd yr Iaith - pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau data.
 - iii) Dylid gwneud yr uchod mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol.

DATBLYGIADAU ERS 2005

1. Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi yn 2007 yn "Cymru'n Un" y bwriad i ddiwygio TAN 20.
2. Hyd y gwyddwn i tydi Llywodraeth y Cynulliad ddim wedi rhoi ystyriaeth nac wedi ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion yn adroddiad 2005.
3. Bu rhaid aros tan fis Mawrth eleni cyn i'r TAN drafft ymgynghorol weld golau dydd.
4. Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn treialu'r fethodoleg yn adroddiad 2005.
5. Does dim newid sylfaenol yn TAN 20 drafft diwygiedig i'r hyn oedd yn y fersiwn blaenorol.
6. Barn Awdurdod y Parc ydi bod y TAN drafft:
 - i) Yn siomedig a bod cyfle gwych wedi ei golli
 - ii) Yn arwynebol heb unrhyw gyfarwyddyd clir na phendrantrwydd
 - iii) Ddim yn ddigon clir ar bryd mae'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig o gyfansoddiad cymdeithas
 - iv) Ddim yn rhoi arweiniad ar pryd mae effaith ar iaith yn allweddol a pwy sydd yn gymwys i arfarnu asesiadau

- v) Yn ddiffygiol o ran cyfarwyddyd pryd a sut fath o asesiad iaith y dylid ei wneud.
- vi) Yn methu a rhoi unrhyw gyfarwyddyd ar sut y dylid ymdrin â chais cynllunio. Mae hyn yn ddiffyg arwyddocaol yn enwedig lle nad oes cynllun lleol wedi ei fabwysiadu.

CASGLIADAU

Mae'n bryd i mi ddirwyn i ben.

1. Ar y cyfan dwi'n siomedig iawn yn y drafft TAN diwygiedig.
2. Mae'r TAN 20 diwygiedig yn ymddangos fel ei fod wedi ei gyhoeddi ar frys er mwyn cyflawni addewidion Cymry yn Un cyn yr etholiad.
3. Does dim tystiolaeth bod unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen'
4. Dwi ddim yn ymwybodol bod unrhyw waith ymchwil wedi ei wneud fel sail tystiolaeth i'r TAN drafft.
5. Mae'r TAN drafft newydd yn diystyru asesiadau ar geisiadau cynllunio ac mae hyn yn peri pryder.

EDRYCH I'R DYFODOL CREDAF Y DYLLID :

1. Cynnal ymchwiliad ac astudiaeth agored ac yna paratoi cyngor a chyfarwyddyd cyfredol ac ymarferol i helpu awdurdodau cynllunio i gymhwyso polisi cenedlaethol ar lefel leol ac i helpu'r datblygwyr sut i gynnal asesiadau o effaith cynigion a datblygiadau ar iaith.
2. Newid y rheoliadau hysbysebu er mwyn rhoi hawl i awdurdodau cynllunio fynnu bod arwyddion newydd yn rhai Cymraeg neu yn ddwyieithog.

3. Sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn gallu defnyddio cytundebau cyfreithiol a lefi is adeiledd i ddenu cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr tuag at gynlluniau sydd yn hybu defnydd o'r iaith.
4. Sicrhau bod y Cynulliad yn meddu ar bwerau deddfwriaethol fyddai yn eu galluogi i ddiddymu hen ganiatâd cynllunio ar gyfer tai neu ddatblygiadau niweidiol eraill heb iawndal.

Diolch yn fawr iawn am wrando.